Eluned Morgan AC/AM
Gweinidog y Gymraeg a Dysgu Gydol Oes
Minister for Welsh Language and Lifelong Learning

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Suzy Davies AC
Aelod Cynulliad dros Orllewin De Cymru
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1NA

suzy.davies@cynulliad.cymru

5 Ebrill 2018

Annwyl Suzy,

Diolch am eich cwestiwn yn ystod y Cyfarfod Llawn ar 27 Chwefror ynglŷn â'r angen i dracio defnydd plant o'r Gymraeg. Mae Arweinydd y Tŷ wedi gofyn i mi ysgrifennu atoch gyda manylion pellach ar y mater hwn.

Mae gan Mudiad Meithrin rôl bwysig i'w chwarae ar bob cam o'r daith i addysg Gymraeg. Fel rhan o'r gefnogaeth maent yn cynnig i Gylchoedd Meithrin, Cylchoedd Ti a Fi a'r gweithgareddau lleol maent yn cynnig drwy raglen Cymraeg i Blant, mae Mudiad Meithrin yn casglu data am niferoedd sy'n cymryd rhan ym mhob un o'r camau hyn yn ogystal â chyfran y plant sy'n trosglwyddo o Gylchoedd Meithrin i addysg Gymraeg bob blwyddyn (87.2 y cant yn ôl data 2016-17).

Casglodd Arolwg Defnydd Iaith 2013-15 wybodaeth gan oedolion a phobl ifanc sy'n siarad Cymraeg er mwyn canfod eu gallu i siarad Cymraeg, pa mor aml maent yn siarad Cymraeg, a ble, phryd a gyda phwy maent yn defnyddio'r iaith. Canfuwyd bod y canran o bobl sy'n siarad Cymraeg yn ddyddiol yn gymharol debyg ar draws ystod o grwpiau oedran ac eithrio rheini rhwng 3 a 15 – roedd cyfran sylweddol uwch o unigolion yn y grŵp oedran hwn yn siarad Cymraeg yn ddyddiol.

Rwy'n cytuno bod angen i ni adeiladu ar y ffynonellau gwybodaeth hyn ac ystyried dulliau eraill i wella ein dealltwriaeth o brofiadau ieithyddol unigolion yn ystod eu bywydau. Mae Cymraeg 2050 yn nodi y byddwn yn sicrhau bod ein rhaglen ymchwil yn rhoi sylw penodol i

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Eluned.Morgan@llyw.cymru
Correspondence.Eluned.Morgan@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

gasglu a dadansoddi data am unigolion dros amser. Gan ystyried hyn, mae nifer o brosiectau wrthi yn cael eu cynllunio er mwyn edrych yn benodol ar ddefnydd plant o'r Gymraeg yn ystod eu cyfnod yn yr ysgol a thu hwnt.

Yn gywir

Eluned Morgan AC/AM
Gweinidog y Gymraeg a Dysgu Gydol Oes